



Cymun Bendigaid ar Gân

Ail Sul y Grawys

5 Mawrth 2023 am 9.15am



Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
– y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau – ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwranddo ar
ddarlenniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hygyrchedd

Mae doler glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â themâu'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



Bydd di f'Arweinydd ar y daith,
a gwrando ar fy nghri,
na ad i'm troed byth lithro chwaith,
a beunydd cynnal fi.

Mae Satan, cnaud, a byd heb ball
o gylch fy ffordd bob awr,
O cadw fi rhag maglau'r fall,
tydi, fy Mhrynwr mawr.

Os temtir fi gan bechod cas,
a phethau gwael y byd,
O Arglwydd, dyro imi ras,
a chadw fi bob pryd.



**Boed im weddio yn ddi-baid,
os egwan yw fy ffydd:
pan ddêl y temtiwr, bydd o'm plaid,
rhag imi golli'r dydd.**

Geiriau

Isaac Williams (1802-1865)

Cyfieithiad

Ap Ceredigion (David Lewis; 1870-1948)

Cerddoriaeth | "Abridge"

Isaac Smith (1734-1805)

Parhawn ar ein traed tan diwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Duw yw fy ngoleuni a'm gwaredigaeth, rhag pwy yr ofnaf?"

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

Rhag ein camweddau a phob drygioni,
rhag oferedd a chenfigen,
rhag casineb a malais.

Dad nefol, gwared ni.

Rhag gafael chwant a chynildeb celwydd,
rhag calon galed,
rhag bopeth a'n estrona.

Dad nefol, gwared ni.

Yn ein amharodrwydd i gydnabod ein gwerth,
yn nhreiddio ein calonnau â llafn dy gariad.

Dad nefol, gwared ni.

Yn nyddiau ein tristwch,
yn oriau ein poen,
yn awr ein marw.

Dad nefol, gwared ni.

Trwy dy Ddioddefaint a'th farw ar y Groes,
trwy dy gladdedigaeth a'th orffwys yn y bedd,
trwy dy Atgyfodiad gogoneddus.

Dad nefol, gwared ni.

Trwy lwybrau dy ddoethineb,
trwy wir edifeirwch,
trwy Gorff Crist.

Dad nefol, gwared ni.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.**

Amen.

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyich,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Parhawn ar ein traed

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.

Cerddoriaeth

Cymun y Cymru ii, John Harper

Parhawn ar ein traed

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

Dad nefol, sy'n gweld nad oes gennym ddim nerth ohonom ein hunain i'n cynorthwyo ein hunain: cadw ni oddi mewn ac oddi allan, yn enaid a chorff: fel yr amddiffynnir ni rhag pob drygfyd a all ddigwydd i'r corff, a rhag pob meddwl drwg a all ymosod a pheri niwed i'r enaid; trwyddo ef sydd Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Eisteddwn



Gair

Darlleniad

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at y Rhufeiniaid.

Garedigion: Yr wyf yn cael y ddeddf hon ar waith: pan wyf yn ewyllysio gwneud daioni, drygioni sy'n ei gynnig ei hun imi. Y mae'r gwir ddyn sydd ynof yn ymhyfrydu yng Nghyfraith Duw. Ond yr wyf yn canfod cyfraith arall yn fy nghynneddfau corfforol, yn brwydro yn erbyn y Gyfraith y mae fy neall yn ei chydabod, ac yn fy ngwneud yn garcharor i'r gyfraith sydd yn fy nghynneddfau, sef cyfraith pechod. Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth? Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist Sanct Duw! Dyma, felly, sut y mae hi arnaf: yr wyf fi, y gwir fi, â'm deall yn gwasanaethu Cyfraith Duw, ond â'm cnawd yn gwasanaethu cyfraith pechod. Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath. Oherwydd yng Nghrist Iesu y mae cyfraith yr Ysbryd, sy'n rhoi bywyd, wedi dy ryddhau o afael cyfraith pechod a marwolaeth. Yr hyn oedd y tu hwnt i allu'r Gyfraith, yn ei gwendid dan gyfyngiadau'r cnawd, y mae Duw wedi ei gyflawni. Wrth anfon ei Fab ei hun, mewn ffurf debyg i'n cnawd pechadurus ni, i ddelio â phechod, y mae wedi collfarnu pechod yn y cnawd. Gwnaeth hyn er mwyn i ofynion cyfiawn y Gyfraith gael eu cyflawni ynom ni, sy'n byw, nid ar wastad y cnawd, ond ar wastad yr Ysbryd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Salmyddiaeth



Ŵ Fy iechyd yw Duw, a'm goleuni,
rhag pwy rhaid im' ofni mewn braw?

**R̄ Fy iechyd yw Duw, a'm goleuni,
rhag pwy rhaid im' ofni mewn braw?**

Duw yw fy ngoleuni a'm gwaredigaeth, rhag pwy yr ofnaf? Duw
yw cadernid fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?

Pan fydd rhai drwg yn cau amdanaf i'm hysu i'r byw, hwy, fy
ngwrthwynebwy'r a'm gelynyon, fydd yn baglu ac yn syrthio.

**R̄ Fy iechyd yw Duw, a'm goleuni,
rhag pwy rhaid im' ofni mewn braw?**

Pe bai byddin yn gweryllu i'm herbyn, nid ofnai fy nghalon; pe
dôl rhyfel ar fy ngwarthaf, eto, fe fyddwn yn hyderus.

Un peth a ofynnais gan Dduw, dyma'r wyf yn ei geisio: cael byw
yn nhŷ Duw holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar hawddgarwch
Duw ac i ymofyn yn y deml.

**R̄ Fy iechyd yw Duw, a'm goleuni,
rhag pwy rhaid im' ofni mewn braw?**

Oherwydd fe'm cysgoda yn nydd adfyd, a'm cuddio mewn
pabell, a'm codi ar graig.

Ac yn awr, fe gyfyd fy mhen goruwch fy ngelynyon o'm
hamgylch; ac offrymaf finau yn y deml aberthau llawn
gorfoledd; canaf, canmolaf y Sanctiadd Un.

**R̄ Fy iechyd yw Duw, a'm goleuni,
rhag pwy rhaid im' ofni mewn braw?**

Salm 27:1-6
Cerddoriaeth y salm-dôn
Tôn V, trydydd terfyniad
Cerddoriaeth yr ymateb
Sam Jones

Crist oll yn hawddgar

Ann Griffiths

Nodwch y ceir dros y dudalen efelychiad Rowan Williams o emyn Ann Griffiths, a fydd yn destun y bregeth yn y Choral Holy Eucharist y bore 'ma.

Cafodd Ann Griffiths (1776-1805) ei geni, a bu'n byw bron gydol ei hoes, ar fferm y teulu, Dolwar Fach yn Sir Drefaldwyn. Ymunodd â chymdeithas y Methodistiaid ym Mhont Robert ym 1797 a mynegodd ei ffydd fywiog drwy gyfrwng ei hemynau, gyda'u cyfoeth o gyfeiriadau ac awgrymiadau ysgrythurol, eu delweddu cadarn, afieithus, a'u dyfnder emosiynol cyson.

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthrych teilwng o fy mryd;
Er mai o ran, yr wy'n adnabod
Ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:
Henffych fore
Y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, teg o bryd;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthrychau penna'r byd:
Ffrind pechadur,
Dyma ei beilat ar y môr.

Beth sy imi mwy a wnelwyf
Ag eilunod gwael y llawr?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
I'w cystadlu â lesu mawr:
O! am aros
Yn ei gariad ddyddiau f'oes.

O orgraff o waith Ann Griffiths gan E. Wyn James ar adran Ann Griffiths o wefan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

I saw him standing

Rowan Williams; ar ôl Ann Griffiths

Etholwyd Rowan Williams yn Archesgob Cymru ym 1999 ac yn Archesgob Caergaint yn 2002. O ran ei efelychiad Saesneg o emyn Ann Griffiths, mae Rowan Williams yn sôn ei fod wedi mabwysiadu "dull o gyfieithu nad yw i fod yn gyfieithiad llythrennol o gwbl, ond yn hytrach yn ymdrech i ail greu'r gyfres o ddelweddau gydag adlais o'r egni sydd yn y gwreiddiol."

Under the dark trees, there he stands,
there he stands; shall he not draw my eyes?
I thought I knew a little
how he compels, beyond all things, but now
he stands there in the shadows. It will be
Oh, such a daybreak, such bright morning,
when I shall wake to see him
as he is.

He is called Rose of Sharon, for his skin
is clear, his skin is flushed with blood,
his body lovely and exact; how he compels
beyond ten thousand rivals. There he stands,
my friend, the friend of guilt and helplessness,
to steer my hollow body
over the sea.

The earth is full of masks and fetishes,
what is there here for me? are these like him?
Keep company with him and you will know:
no kin, no likeness to those empty eyes.
He is a stranger to them all, great Jesus.
What is there here for me? I know
what I have longed for. Him to hold
me always.

Rowan Williams, **The Poems of Rowan Williams**
(Carcenet Press, 2014)
Copyright Rowan Williams

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efyngylau yng Nghorff yr Eglwys



✚ Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol. ✚ **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** ✚ Duw, diolch iddo, trwy lesu Grist Sanct Duw! ✚ **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** ✚ Wedi i'r cythraul fynd allan, llefarodd y mudan a synnodd y dyrfa. ✚ **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✚ Sant Luc.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Yr oedd Iesu yn bwrw allan gythraul, a hwnnw'n un mud. Ac wedi i'r cythraul fynd allan, llefarodd y mudan. Synnodd y tyrfaeodd, ond meddai rhai ohonynt, "Trwy Beelsebwl, pennaeth y cythreuliaid, y mae'n bwrw allan gythreuliaid." Yr oedd eraill am ei brofi, a gofynasant am arwydd ganddo o'r nef. Ond yr oedd ef yn deall eu meddyliau hwy, ac meddai wrthynt, "Caiff pob teyrnas a ymrannodd yn ei herbyn ei hun ei difrodi, a'r tai yn cwmpo ar ben ei gilydd. Ac os yw Satan yntau wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, sut y saif ei deyrnas? – gan eich bod chwi'n dweud mai trwy Beelsebwl yr wyf yn bwrw allan gythreuliaid. Ac os trwy Beelsebwl yr wyf fi'n bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich disgyblion chwi yn eu bwrw allan? Am hynny hwy fydd yn eich barnu. Ond os trwy fys Duw yr wyf fi'n bwrw allan gythreuliaid, yna y mae teyrnas Dduw wedi cyrraedd atoch. Pan fydd dyn cryf yn ei arfwig yn gwarchod ei blasty ei hun, bydd ei eiddo yn cael llonydd; ond pan fydd un cryfach nag ef yn ymosod arno ac yn ei drechu, bydd hwnnw'n cymryd yr arfwig yr oedd ef wedi ymddiried ynddi, ac yn rhannu'r ysbail. Os nad yw rhywun gyda mi, yn fy erbyn i y mae, ac os nad yw'n casglu gyda mi, gwasgaru y mae. "Pan fydd ysbryd aflan yn mynd allan o rywun, bydd yn rhodio trwy fannau sychion gan geisio gorffwysfa, ond heb ei gael. Yna y mae'n dweud, 'Mi ddychwelaf i'm cartref, y lle y deuthum

ohono.' Wedi cyrraedd, y mae'n ei gael wedi ei ysgubo a'i osod mewn trefn. Yna y mae'n mynd ac yn cymryd ato saith ysbryd arall mwy drygionus nag ef ei hun; y maent yn mynd i mewn ac yn ymgartrefu yno; ac y mae cyflwr olaf y dyn hwnnw yn waeth na'r cyntaf."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

Moliant i ti, O Grist.

Luc 11:14-26

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth yn y gyfres "Duw newydd digyfnewid"

"Rwy'n fwyfwy argyhoeddedig mai'r ffordd orau o ddiwinydda yw barddoni," meddai'r diwinydd a'r hanesydd, Diana Butler Bass, yn ddiweddar. Mae hi'n ein cyfeirio at yr her o sôn am y Duw anweledig mewn ffyrdd sy'n anrhydeddu dirgeledd Duw, a thuag at y gwirionedd mai mewn barddoniaeth y mae beirdd, emynwyr, pregethwyr a holl bobl Dduw yn aml wedi dod agosaf at ganfod mewn geiriau'r harddwch, y gwirionedd a'r cariad y mae'r enaid yn ei gaffael yn Nuw. Wrth i ni gamu tuag'r Wythnos Fawr a llawenydd dwfn y Pasg, bydd cerdd i gyd-fynd â'n darlleniadau Beiblaidd pob Sul, a bydd ein pregethau'n ein dwyn i ddirgeledd y farddoniaeth, er mwyn ein dwyn hefyd i goflaid dirgeledd Duw. Canys, fel y dywed yr offeiriad a'r llenor, Mark Oakley, "Y mae Duw yn y byd hwn fel y mae barddoniaeth yn y gerdd."

Yr Canon Emeritws

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Cyflwyno'r Wenwisg a Medal

Cyflwyno'r Wenwisg i Gorydd

Caiff y un sydd i dderbyn y Wenwisg eu cyflwyno gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, cyflwynaf i chi Abhay, sydd wedi cwblhau eu cyfnod prawf ac sydd bellach yn barod i gael eu derbyn fel Corydd yng Nghôr ein Cadeirlan.

Abhay, wyt ti am fod yn un o Goryddion Côr y Gadeirlan hon?
Ydw.

A wnei di feithrin dy ddoniau, a'u hoffrymu er gogoniant i Dduw?

Gwnaf.

Yng ngwasanaeth y fangre sanctaidd hon, a fyddi di'n barchus, yn ffyddlon ac yn weddigar?

Byddaf.

Gweddïwn.

Hollalluog Dduw, awdur pob rhyfeddod a hyfrydwch, a elwaist dy wasanaethyddion dros fôr y canrifoedd i ganu mawl i ti yn y fangre hon; tywallt roddion dy Ysbryd Glân ar yr un ger dy fron heddiw, gan lenwi eu calon â'th gariad a'u genau â'th gân, fel y cyhoeddir dy ogoniant yn y ddinas hon a thrwy'r holl greadigaeth; yn Enw Sanctaidd Crist.

Amen.

Caiff y Wenwisg ei ddiidoli

Abhay, ar ran Cabidwl a Phobl Cadeirlan Deiniol Sant, rwy'n dy dderbyn fel Corydd yng Nghôr y Gadeirlan. Bydded Duw, awdur nefoedd a daear, yn gynhالياeth i ti o'r brynïau, fel y bo'th camre'n gadarn a'th ffyrdd yn union; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo arnat yn awr ac a drigo gyda thi yn wastad.

Amen.

Cyflwyno Medalau

Mae derbynwyr medalau am ffyddlondeb a datblygiad cerddorol yn cael eu cyflwyno gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, cyflwynaf i chi'r rhai o'n Côr sydd wedi derbyn medalau y tymor hwn.

Gweddiwn.

O Dduw, y mae saint ac angylion yn ymhyfrydu d'addoli yn y nefoedd, bydd bresennol fyth â'th wasanaethyddion sydd, trwy gynghanedd a cherddoriaeth, yn perffeithio'r clodydd a offrymir gan dy greadigaeth is y rhod; a chaniatâ iddynt hyd yn oed yn awr gipolwg o'th wynfyd, a'u gwneud yn deilwng yn yr oes a ddaw o'u rhan ym moliant diderfyn dy dragwyddoldeb; yn Enw Sanctaidd Crist.

Amen.

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn



Cymun

Emyn

The musical score is written in G major (one sharp) and 4/4 time. It consists of four staves. The first three staves are vocal lines, and the fourth is a piano accompaniment. The music features a mix of quarter, eighth, and half notes, with a final cadence in the fourth staff.



Gad in ddilyn buchedd newydd:
clyw, O Arglwydd, lef dy blant
a ymrwymodd yn eu bedydd
i gasáu pob cnawdol chwant;
bywyd newydd, glân, diragrith
guddiwyd gyda Christ yn Nuw,
bywyd dyf dan wlith dy fendith –
dyna'r bywyd gad in fyw.

Gad in ddilyn buchedd newydd
yng nghymdeithas Eglwys Grist:
dwyn, dan ganu, feichiau'n gilydd,
calonogi'r teithwyr trist;
byw yng nghwmni seintiau'r oesau,
a'u hanthemau yn ei clyw,
eu gweddiau yn ein genau –
dyna'r bywyd gad in fyw.

Gad in ddilyn buchedd newydd,
gan anghofio'r pethau fu:
adnewyddu'r undeb beunydd
rhyngom, Arglwydd, a thydi;
byw mewn undeb â'th holl deulu,
byw i ogoneddu Duw,
byw yn llewyrch dy oleuni –
dyna'r bywyd gad in fyw.

Geiriau
Timothy Rees (1874-1939)
Cerddoriaeth | "Sanctus"
Isalaw (John Richards; 1843-1901)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deunw i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.
Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deunw i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.
Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddï Ewcharïstaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A brofwyd ym mhob peth, ond na phechodd. Trwy ei ras medrwn drechu pob drygioni a byw mwyach nid i ni ein hunain ond i'r un a fu farw trosom ac a atgyfodwyd.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Cymun y Cymru ii, John Harper

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Dy gorff drylliedig, llwch ein llwch a chnawd ein cnawd, dan glwyfau dy gariad tangnefeddus, ddaw'n gyflawn inni mewn tangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Iesu, Oen Duw: trugarha wrthym.

Iesu, sy'n dwyn ein pechodau: trugarha wrthym.

Iesu, iachawdwr y byd: dyro inni dy dangnefedd.

Cerddoriaeth

Cymun y Cymru ii, John Harper

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

In manus tuas, Domine, commendo spiritum meum. Redemisti me Domine, Deus veritatis.

Cyfieithiad

Cyflwynaf fy ysbryd i'th law di; gwaredaist fi, O Dduw, y Duw ffyddlon.

Geiriau

Salm 31:5

Cerddoriaeth

Thomas Tallis (c.1505-1585)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

Emyn

The musical score is presented on four staves. The first staff starts with a treble clef and a 4/4 time signature. The key signature has one sharp (F#). The melody is simple and homophonic, typical of Tallis's style. The first staff begins with a treble clef and a 4/4 time signature. The key signature has one sharp (F#). The melody consists of quarter and half notes, ending with a final cadence on a whole note.

Tyrdd, Ysbryd Sanctaidd, oddi fry,
gwna ein calonnau iti'n dŷ;
â'th ras cysegra ni bob un
yn fywiol deml i ti dy hun.

Rho in dywalltiad helaeth iawn
o nefol rin dy ddwyfol ddawn;
doethineb, nerth, goleuni clir,
llawn hyder ffydd, a chariad gwir.

O rho dy fendith ar dy waith,
a rho dy wyneb ar ein taith,
nes uno gyda'r sanctaidd lu,
i'th foli byth mewn gwynfyd fry!

Geiriau

Gwilym Berw (William Lewis; 1845-1917)

Cerddoriaeth | "Deep Harmony"

Handel Parker (1854-1928)

Parhawn ar ein traed



Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhodded Crist ras i chwi gynyddu mewn sancteiddrwydd,
ymwadu â chwi eich hunain, ac chodi eich croes a'i ddilyn
ef; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd
Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Schmucke dich, o liebe Seele, BWV 654, Johann Sebastian Bach (1685-1750)

Cerddi ein cyfres bregethu

Wrth i ni gamu tuag'r Wythnos Fawr a llawenydd dwfn y Pasg, mae cerdd i gyd-fynd â'n darlenniadau Beiblaidd pob Sul.

Beth am fynd â'r llyfryn hwn adref gyda chi, ac ailymweld â'r gerdd yn ystod yr wythnos. Darllenwch hi yn dawel, neu ar lafar, efallai fwy nag unwaith.

Cwestiynau ar ôl darllen cerdd

1 Beth a'ch trawodd gyntaf pan oeddech chi'n darllen y gerdd? Beth oedd yn neidio allan atoch chi?

2 Beth wnaethoch chi weld, blasu, clywed, ogleuo a chyffwrdd?

3 Pa ran o'r gerdd oedd yn ennyn eich diddordeb neu a oedd yn ddyrys i chi?

4 Pa emosiynau ydych chi'n eu gweld yn y gerdd?

5 Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo? Beth yn y gerdd a ddaeth â chysur i chi? Beth yn y gerdd a'ch heriodd?

6 A oedd y gerdd yn eich cysylltu â rhywbeth o bwys? Beth yw'r neges yn y gerdd i chi?

Hysbys



Clas

Clas yw teitl ein fforwm Zoom sy'n ymgynnull ambell ddydd Llun am 6.30pm.

Mae **Clas** y nos Lun yma 6 Mawrth yn gyfle am sgwrs â Mary Stallard cyn iddi ein gadael i ddod yn Esgob newydd Llandaf. Bydd yr Esgob yn myfyrio ar ei chyfnod yn yr esgobaeth, ei chyfranogiad yng Nghynhadledd Lambeth yr haf diwethaf, ei hymweliad Cymundeb Anglicanaidd diweddar â Ghana, a phopeth sydd nawr o'i blaen.

ID cyfarfod Zoom yw **857 3402 4520** a'r cod pas yw **606397**, a bydd yr ystafell Zoom ar agor o 6.15pm.

Cyfarfod Cynulleidfaol

Bu i'n Cyfarfod Cynulleidfaol Dygwyl Ddewi nos lau diwethaf drafod cwblhau'r gwaith cynnal a chadw fu;n digwydd dros fisoedd y gaeaf, y systemau atal tân sydd i'w gosod maes o law, a dodfren newydd ar gyfer Corff yr Eglwys a fydd, fe obeithiwn, yn cyrraedd y Gadeirlan mewn pryd ar gyfer yr Wythnos Fawr.

Cinio Dewch i Rannu

Cynhelir ein Cinio Dewch a Rhannu nesaf am 12.15pm, yn dilyn y Choral Holy Eucharist, ar Sul y Dioddefaint 26 Mawrth. Mae'n Cinio Dewch i Rannu yn gyfle am sgwrs, difyrrwch, croeso a charedigrwydd. Gwahoddir pawb; ac os hoffech awgrymiadau am fywd i'w ddwyn, siaradwch â Canon Jane Coutts.

Gwneir casgliad yn ystod y Cinio Dewch a Rhannu ar gyfer Apêl Daeargryn Twrci-Syria y DEC, a'i waith bryd i gynnig lloches ac i gyfrannu at yr adfer yn y gwledydd hynny ar ôl y dinistr diweddar.

Datganiadau Paned

Pob dydd Iau

11.15am am 45 munud

Paned a chacen o 10.45am

9 Mawrth | Simon Lawford | Organ

Mae Organydd yr Eglwys Ffrangeg yn Llundain yn cymryd seibiant o'r metropolis i roi organ y Gadeirlan ar prawf.

16 Mawrth | Simon Ogdon | Gwrthdenor

Mae Clerc Lleyg y Gadeirlan, Simon Ogdon, yn cyflwyno datganiad sy'n cynnwys rhai o gantatas seciwlar Handel i unawdwyr.

Johannes-Passion

Sul y Blodau

6.00pm

Am ragor o wybodaeth am y *Johannes-Passion* a gweddill arlwy'r Wythnos Fawr, gweler **Buchedd Bangor**.

Yr wythnos

Heddiw | Today

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Clucas;
Gwasanaeth Hwyrrol yn D leiaf |
Evening Service in D minor, Walmisley;
God so loved the world, Stainer;
Attende Domine, Demessieux

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00pm Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

8.00pm Gwylnos | Vigil

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad | Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

12 Mawth | Trydydd Sul y Grawys | 12 March | The Third Sunday of Lent

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun Gwynedd, Cooper; Marwnad y Bardd, Ogdon; Allegro Risoluto, Whitlock

11.00am Choral Holy Eucharist

Missa "Je suis déshéritée", Lassus; Super flumina Babylonis, Lassus; Prelude and Fugue in C minor, BWV 549, Bach

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Spicer;
Gwasanaeth Hywrol "Collegium Regale" Evening Service, Howells; Like as the Hart, Howells; Sarabande in modo elegiaco, Howells

Ein gweddi

Ein cymuned Banc Bwyd y Gadeirlan

Ein hesgobaeth Y rhai sy'n archwilio galwedigaeth i weinidogaeth ordeiniedig, a'r rhai sy'n gyfrifol am ddirnad eu galwad

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Giuseppina de Giovanni; Domenico de Rosa; Judith Adams; Ellis Talbot; Sue Kenyon; Gebre

A fu farw'n ddiweddar Brianna Ghey; Pauline Mulhoney; Nicola Bull; Leonie Knapton; Beryl Roberts; Polly Hoskin

Gŵyl goffa Laurine Evans (6); Erwyd Edwards, offeiriad (11)

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlluedu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae delwedd y clawr yn ystod tymor of Gesimáu a'r Grawys yn ffotograffau gan y ffotograffydd lleol ac un o gyfeillion y Gadeirlan, Dave Custance.

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

Deiniol Sant ym Mangor

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru

Y Parchediac Andrew T. G. John

Bishop & Archbishop of Wales

The Most Rev Andrew T. G. John

Is-Ddeon | Sub-Dean

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Canon for Congregational Life

Canon Tracy Jones

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

Joe Cooper

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

Martin Brown

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister

Naomi Wood

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk

Robert Jones

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

Simon Taylor

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

Kelly Edwards

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator

Sam Jones

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu

Conservation & Development Project Manager

Simon Ogdon

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus

Canon David Thomas Morris

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritus | Canon Emeritus

Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones,

y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.

Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter

Kaye

Darllenydd | Reader

Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

